

# Ein Byd

Maddau i ni, Arglwydd y Cread, am y trachwant sy'n difetha yfory er mwyn i ni gael diddanwch a chysur heddiw; am y diofalwch sy'n llygru yfory er mwyn i ni gael esmwythdra heddiw; am yr anghyfiawnder sy'n amddifadu yfory er mwyn cyfoethogi ein byd heddiw, am y ffolineb sy'n anghofio yfory a byw yn unig er mwyn heddiw a'i bleserau. Heria ni i newid ein hagwedd a byw heddiw gan baratoi ar gyfer yfory. Amen.

## EMYNAU

### Mae'r bydysawd cyfan yn dangos mawredd Duw y Creawdwr:

Mae'r nefoedd faith uwchben  
yn datgan mawredd Duw,  
mae'r haul a'r lloer a'r sêr i gyd  
yn dweud mai rhyfedd yw.

Evan Griffiths (*Caneuon Ffydd*: 4)

### Mae'r cread a'i holl amrywiaeth yn creu gorfoledd yn fy enaid:

Fy Arglwydd Dduw, daw im barchedig ofon  
wrth feddwl am holl waith dy ddwylo di,  
yng nghân y sêr a rhu y daran ddofon,  
drwy'r cread oll, dy rym a welaf i:

Carl Gustaf Boberg

cyf. Stuart W. K. Hine ac E. H. Griffiths (*Caneuon Ffydd*: 140)

### Mae Arglwydd y bydysawd sydd wedi creu'r cyfan wedi rhoi Iesu i ni hefyd:

Ti, Arglwydd, a greodd y bydoedd,  
a threfnaist i'r wawrddydd ei lle,  
dy allu a daenodd y nefoedd  
a'th gerbyd yw cwmwl y ne';

gosodaist sylfeini y ddaear  
 a therfyn i donnau y môr,  
 mor fawr yw gweithredoedd digymar  
 a rhyfedd ddoethineb yr Iôr.

D. Gwyn Evans (*Caneuon Ffydd*: 103)

**Yng nghanol gwychder y byd o'm cwmpas dysg fi i adnabod fy hun a thrwy hynny dod i'th adnabod di:**

Nef a daear, tir a môr  
 sydd yn datgan mawl ein Iôr:  
 fynni dithau, f'enaid, fod  
 yn y canol heb roi clod?

Joachim Neander *cyf.* Elfed (*Caneuon Ffydd*: 116)

**Gwylw'n rhag ofn i ni gyfarwyddo gormod â'r byd o'n cwmpas fel na allwn ryfeddu:**

Tydi, a roddaist liw i'r wawr  
 a hud i'r machlud mwyn,  
 tydi, a luniaist gerdd a sawr  
 y gwanwyn yn y llwyn,  
 O cadw ni rhag colli'r hud  
 sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.

T. Rowland Hughes (*Caneuon Ffydd*: 131)

**Duw y Creawdwr a'r cynhaliwr yw'r Duw sy'n Dad:**

Agorwn ddrysau mawl  
 i bresenoldeb Duw;  
 pan fydd ein calon ni'n y gân  
 ei galon ef a'n clyw.

John Gwilym Jones (*Caneuon Ffydd*: 3)

**GWEDDÏAU****Ni allwn ond plygu'n wylaidd mewn rhyfeddod a syndod at brydferthwch dy fydd:**

'Nef a daear, tir a môr

sydd yn datgan mawl ein Iôr.'

Diolch i Ti, Arglwydd, am blannu ynom yr ysbryd i gredu hynny o waelod calon. D'eiddo Di yw'r cyfan a grëwyd, ac ni allwn ond synnu a rhyfeddu at dy fawredd a'th allu. Creaist fydysawd godidog yn llawn swyn a thlysni. Amen.

Iwan Ll. Jones

**Er ein bod wedi cefnu arnat yr un wyt ti o hyd:**

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sylweddolwn heddiw mai dy ofal a'th gynhaliaeth sydd wedi ein cadw hyd y munudau hyn. Er inni grwydro a throï cefn a'th anwybyddu lawer gwaith, ac er inni fod yn y fan hyn o'r blaen, fe deimlwn yn awr dy gariad yn ein cofleidio a'th freichiau tragwyddol yn ein cynnal. Amen.

Elwyn Richards

**Cofiw'n am y rhai ar hyd a lled y byd sy'n byw mewn angen:**

Cofiw'n gerbron dy orsedd hefyd, Arglwydd, am bawb nad ydynt heddiw yn gyfrannog o'n golud ni. Mewn sawl gwlad mae dy blant heddiw mewn angen ac yn dioddef newyn neu ryfel neu effeithiau trychineb naturiol. Beth bynnag fo'u hargyfyngau, bydd di gyda hwy a dyro yn ein calonnau ninnau yr awydd i'w cynorthwyo.

Oherwydd fe wyddom ni, Arglwydd, nad oes gennyt ti ddwylo, nad oes gennyt ti weithwyr ar wahân i ni. Defnyddia ni, felly, yng ngwaith dy deyrnas a dyro yn ein calonnau y gras i gyflawni dy waith. Amen.

Elwyn Richards

**Diolchwn am ryfeddod a phrydferthwch ein byd:**

Molwn di, O Arglwydd, creawdwr nef a daear, am harddwch y byd a roddaist inni i breswyllo ynddo:

am heulwen a chawod a chwmwl;

am y nos a'i sêr aneirif;

am ddisgleirdeb cyntaf y wawr a llewyrch olaf y machlud;

am gadernid ac urddas mynyddoedd ac am brydferthwch dyffrynnoedd;

am gyfaredd y môr hefyd yn ei dawelwch a'i gyffro;

am dlysnï a sirioldeb blodau, ac

am goed yn amser gwanwyn.

Rhyfedd yw dy weithredoedd, O Dduw, ac uwchlaw ein deall ni.

Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

### **Maddau ein dallineb ysbrydol a rho i ni weledigaeth newydd:**

Maddau i ni, Arglwydd, ein hanallu i werthfawrogi cyfoeth dy fendithion i ni dy blant.

Maddau i ni'r dallineb sy'n ein rhwystro rhag adnabod cyfleusterau bywyd fel rhoddion oddi wrthyt ti.

Maddau i ni'r balchder sy'n ein rhwystro rhag cydnabod ein dyled i ti a'n dibyniaeth arnat.

Maddau i ni'r rhagfarnau sy'n ein rhwystro rhag adnabod ein cyd-ddynion fel brodyr a chwiorydd ynot ti.

Maddau i ni'r anufudd-dod sy'n ein rhwystro rhag iawn-ddefnyddio dy roddion.

Dyro i ni fendith dy faddeuant a phenderfyniad i rodio'n fwy teilwng o'th ddaioni a'th ofal tadol. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

## **ADNODAU**

**Wrth ddyrchafu Arglwydd y greadigaeth mae'r Salmydd yn gofyn, 'Beth yw dyn?':**

O ARGLWYDD, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!

Gosodaist dy ogoniant uwch y nefoedd, ...  
beth yw meidrolyn, iti ei gofio,  
a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?

Salm 8: 1, 4

**Y mae'r nefoedd a'r ffurfafen yn arddangos gwaith Duw'r Creawdwr:**

Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw,  
a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo.

Salm 19: 1

**Duw yw Creawdwr y cyfanfyd, hyd yn oed y môr oedd yn symbol o ddrygioni i'r Iddew:**

Oherwydd Duw mawr yw'r ARGLWYDD,  
a brenin mawr goruwch yr holl dduwiau.  
Yn ei law ef y mae dyfnderau'r ddaear,  
ac eiddo ef yw uchelderau'r mynyddoedd.  
Eiddo ef yw'r môr, ac ef a'i gwnaeth;  
ei ddwylo ef a greodd y sychdir.

Salm 95: 3-5

**Y mae'r Duw sydd wedi creu cyrrau'r ddaear yn dal ati i greu yn ei greadigaeth:**

Oni wyddost, oni chlywaist?  
Duw tragwyddol yw'r ARGLWYDD  
a greodd gyrrau'r ddaear;  
ni ddiffygia ac ni flina,  
ac y mae ei ddeall yn anchwiliadwy.

Eseia 40: 28

**Y mae'r unigolyn sydd yng Nghrist yn greadigaeth newydd sbon!**

Felly, os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma.

2 Corinthiaid 5: 17

**Y nod yw dwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist:**

Yng nghynllun cyflawniad yr amseroedd, sef dwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist, gan gynnwys pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear.

Effesiaid 1: 10

**DYWEDIADAU A THRADDODIADAU**

Creodd Duw'r byd o ddim, a thra byddwn ninnau'n ddim gall wneud rhywbeth ohonom ni.

Martin Luther

Mae Duw wedi creu byd da. Mae Duw yn dal i greu. Nid creu'r byd a'i adael wedyn a wnaeth Duw. Mae Duw yn ei fyd heddiw, yn cyflawni ei fwriadau.

Mae bywyd sy'n esblygu ac yn newid yn dangos bod y Creawdwr yn dal i greu. Nid rhywbeth a ddigwyddodd unwaith ac am byth yn nechrau amser ydi'r Creu, ond proses yw sy'n dal i ddigwydd. Mae'r Duw sy'n gariad, yn amyneddgar ac yn ddirgel ei ffordd, yn dal i greu, ac yn weithredol yn ei fyd heddiw.

Y mae gweithredoedd mawr yn cymryd amser.

Cardinal Newman

Y mae creu ac ail-greu bywyd yn ei holl ffurfiau a'i wahanol rywogaethau yn weithgarwch parhaus. Am mai Duw creadigol, gweithgar ydyw, y mae'n cyson arwain, achub ac adfer ei fyd.